

B4. Rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Unwaith y bydd cynllun busnes strategol wedi'i ddatblygu ac y bydd pawb wedi cytuno arno, bydd angen ei roi ar waith. Mae hyn yn golygu: 'gwerthu'r' cynllun i'r rheolwyr a'r staff eraill sy'n ymwneud â'i roi ar waith; cytuno ar safonau ar gyfer mesur ei lwyddiant; monitro'n ofalus gweithredu'r cynllun a gwneud addasiadau ar hyd y ffordd, sef proses a allai alw am lawer o hyblygrwydd a bod yn agored i newid.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad** a **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Os mai cwmni bach yw'ch sefydliad, dylech edrych ar uned *D1 Carry out your business plan* y mae Cynllun Datblygu Menter Cwmnïau Bychain (SFEDI) wedi'i datblygu yn benodol i gwmnïau bychain a **allai** fod yn fwy addas i'ch anghenion chi. Gallwch gael gwybodaeth am yr uned oddi wrth SFEDI ffôn: 0114 241 2155 neu wefan SFEDI (www.sfedi.co.uk).

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth roi'r cynllun busnes strategol ar waith. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Meddwl yn strategol
- Cynllunio
- Monitro
- Arweinyddiaeth
- Arloesi
- Datrys problemau

- Rheoli risg
- Cyfathrebu
- Dirprwyo
- Rhwydweithio
- Cynnwys pobl eraill
- Cyflwyno gwybodaeth
- Gwerthuso
- Ymgynghori
- Dylanwadu a pherswadio

B4. Rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Sicrhau bod y pobl dan sylw yn deall ac yn cefnogi'r cynllun, a'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad ag ef.
2. Defnyddio dulliau a mesurau y cytunwyd arnyn nhw i fonitro gweithredu'r cynllun.
3. Nodi amrywiadau o safonau y cytunwyd arnyn nhw a'r rhesymau dros y rhain.
4. Addasu'r cynllun neu'r bobl a'r adnoddau mewn modd sy'n gyson â gweledigaeth ac amcanion cyffredinol y sefydliad.
5. Rhoi gwybod i'r bobl dan sylw am addasiadau i'r cynllun a'u helpu i newid eu cynlluniau eu hunain.
6. Cofnodi sut i'r cynllun gael ei roi ar waith, sut iddo gael ei werthuso a'i addasu, mewn modd a fydd yn helpu'r cynllunio yn y dyfodol.
7. Nodi arfer da a meysydd i'w gwella, a chyfleu'r rhain i gydweithwyr a budd-ddeiliaid allweddol.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn gweithio i drosi digwyddiadau annisgwyl yn gyfleoedd yn hytrach na'n fygythiadau.
2. Byddwch yn adnabod newidiadau mewn amgylchiadau yn ddiymdroi ac yn addasu cynlluniau a gweithgareddau yn unol â hynny.
3. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
4. Byddwch yn ymateb yn bositif ac yn greadigol i anawsterau.
5. Byddwch yn sensitif i anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid ac yn rheoli'r rhain yn effeithiol.
6. Byddwch yn gweithio tuag at weledigaeth o'r dyfodol sydd wedi'i diffinio'n eglur.
7. Byddwch yn bachu cyfleoedd pan fyddan nhw'n codi i gyflawni nodau tymor hir.
8. Byddwch yn gwneud ac yn gweithredu penderfyniadau anodd a/neu amhoblogaidd os bydd angen.

B4. Rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Egwyddorion a dulliau rheolaeth strategol a chynllunio busnes
2. Pwysigrwydd cyfleu'r cynllun i bobl a sicrhau eu bod yn ei ddeall, a sut i wneud hyn yn effeithiol
3. Sut i fonitro ac adolygu gweithredu'r cynllun, a'r perfformiad o'i gymharu â'r cynllun
4. Sut i asesu a rheoli risg
5. Sut i ddatblygu'r cynllun ymhellach a'i addasu
6. Sut i addasu'r ffordd y byddwch yn dyrannu pobl ac adnoddau ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith
7. Pwysigrwydd nodi ffyrdd y gellid gwella'r cynllunio yn y dyfodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn eich sector
2. Datblygiadau'r farchnad yn eich sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Y cynllun busnes strategol y cytunwyd arno ar gyfer eich sefydliad
2. Y farchnad mae'ch sefydliad yn gweithio ynddi
3. Adborth cwsmeriaid, gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall am reolaeth
4. Strwythur a phrosesau busnes eich sefydliad
5. Diwylliant eich sefydliad
6. Cydweithwyr a budd-ddeiliaid allweddol eraill, a'u hanghenion a'u disgwyliadau
7. Y prosesau ar gyfer cyfathrebu o fewn eich sefydliad.